**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

**CYNLLUN LLEIHAU RISG 2007/08**

**Adroddiad gan Paul Claydon,**
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**
**(Cyflwyno'r Gwasanaethau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwyno fersiwn ddrafft o Gynllun Lleihau Risg (RRP) 2007-08 i'r Aelodau.

## Cyflwyniad

**2.** Ar Fawrth 21ain 2006, lansiwyd cyfarwyddyd ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub gan Lywodraeth y Cynulliad dan yr enw "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Roedd yn disodli'r cyfarwyddyd blaenorol a'r polisi ar Gynllunio Integredig Rheoli o'r flwyddyn ariannol 2007-08 ymlaen.

**3.** Y cyfarwyddyd ar Gynlluniau Lleihau Risg sy'n darparu'r cyfeiriad strategol sy'n ofynnol i'r Awdurdodau er mwyn mynd i'r afael â risg mewn ffordd strwythuredig tra'n cofleidio'r pwyslais cynyddol ar atal.

## **Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Mae’n bwysig i’r Aelodau nodi:-

- Mai prif nod y Cynllun Lleihau Risg yw hynny, sef lleihau risg.
- Rhaid i’r Awdurdodau fod â Chynllun Lleihau Risg neu gynllun gweithredu yn arwain ohono yn eiddo i’r cyhoedd erbyn Hydref 31$^{ain}$ bob blwyddyn.
- Rhaid i’r Awdurdodau ymgynghori’n eang ar y Cynllun Lleihau Risg, a chaniatáu o leiaf 12 wythnos ar gyfer yr ymgynghori.
- Rhaid i’r Awdurdodau asesu a dadansoddi risg.0
- Rhaid i’r Awdurdodau ystyried risg corfforaethol a’r amgylchedd busnes yn ogystal â’r risg cymunedol.

**5.** Diben y papur eglurhaol hwn yw cyflwyno Cynllun Lleihau Risg draft i’r Aelodau ar gyfer 2007-08 sydd wedi cael ei newid yn dilyn cyfarfod y Panel Gweithredol ar Fai 18$^{fed}$ 2006.

## **Cynllun Lleihau Risg 2007-08**

**6.** Mae’r meysydd pynciol ar gyfer y Cynllun Lleihau Risg wedi cael eu rhannu’n risg cymunedol a risg corfforaethol.

**7.** Y risgiau cymunedol yw Marwolaethau ac Anafiadau, Tanau ac Achosion Brys, Y Gallu i Wrthsefyll yn Lleol ac yn Genedlaethol, yr Effaith ar yr Amgylchedd ac Ymgysylltu â’r Gymuned.

**8.** Y risgiau corfforaethol yw Gallu, Gwrthsefyll a Llywodraethu.

**Cynllun Lleihau Risg 2007-08** *(parhad)*

**9.** Mae cynnwys y Cynllun yn ateb disgwyliadau'r cyfarwyddyd, gan ei fod yn cynnwys:-

- Adnabod y risg
- Effeithiolrwydd y mesurau presennol ar gyfer rheoli
- Adnabod y cyfleoedd i wella
- Safonau Gwasanaeth
- Manteision y newidiadau arfaethedig

**Casgliadau**

**10.** Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r pwysau mawr sydd o ran amser i lunio Cynllun Lleihau Risg cyntaf yr Awdurdod. Cywasgwyd proses o asesu a dadansoddi risg i bum wythnos, proses a ddylai gymryd cyfnod o chwe i saith mis.

**11.** Er mwyn cwrdd â'r gofynion sydd yn adran 4, y dyddiad olaf posib i anfon y Cynllun Lleihau Risg at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn sicrhau bod yr ymatebion yn gallu cael eu hadrodd i'r Awdurdod, a'u cytuno, a'r Cynllun yn eiddo i'r cyhoedd erbyn Hydref 31ain , yw Gorffennaf 10fed 2006.

**12.** Bydd yr Aelodau hefyd yn dymuno nodi bod y Cynllun drafft a'r Cynllun Gweithredu, yn unol â'r cyfarwyddyd, wedi cael eu gyflwyno i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar ddiben trafodaeth anffurfiol, gyda'r bwriad o gyhoeddi'r Cynllun erbyn Gorffennaf 10fed 2006. Rhoddir adroddiad ar lafar yn y cyfarfod ynghylch y sefyllfa ddiweddaraf o ran ymateb Llywodraeth y Cynulliad.

## Argymhelliad

**13.** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo'r Cynllun drafft at ddiben ymgynghoriad cyhoeddus.